# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| **ADRAN:** | Ysgol Bryn Castell |
| **SWYDD:** | Athro/Athrawes a Rheolwr Gwyddoniaeth a Thechnoleg gan gynnwys sgìl trawsgwricwlaidd y Fframwaith Cymhwysedd Digidol (FfCD) |
| **GRADD Y SWYDD:** | MPS + ADY + TLR2a |
| **YN ATEBOL I'R:** | Pennaeth a'r Corff Llywodraethu |

---

**DIBEN Y SWYDD:**

Yn ogystal â rolau a chyfrifoldebau athro/athrawes ddosbarth yn Ysgol Bryn Castell, bydd deiliad y swydd yn cynorthwyo ac yn cefnogi'r Pennaeth wrth arwain, rheoli a datblygu addysgu a dysgu'r MDPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg er mwyn datblygu disgyblion a sicrhau cymaint o gynnydd â phosibl disgyblion ar draws y cwricwlwm.

Bydd deiliad y swydd yn gweithio ar y cyd â staff yr ysgol, rhieni/gofalwyr a chydweithwyr amlasiantaethol er mwyn arwain a rheoli datblygu disgyblion ar draws yr ysgol a'r cwricwlwm i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael eu cynorthwyo i wneud cynnydd yn sgìl trawsgwricwlaidd FfCD.

Bydd deiliad y swydd yn cyflawni'r amodau cyflogaeth cenedlaethol fel y nodwyd yn y Ddogfen Tâl ac Amodau Athrawon Ysgol gyfredol, ac yn cyrraedd y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.

Bydd y swydd wag barhaol hon yn cynnwys addysgu amrywiaeth o bynciau ar draws yr ystod oedran gyfan o ddisgyblion (7-19 oed) sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) gan gynnwys disgyblion ag anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol ac awtistiaeth.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

Yn ogystal â rolau a chyfrifoldebau athro/athrawes ddosbarth yn Ysgol Bryn Castell:

- Rheoli'r gwaith o addysgu a dysgu'r MDPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg a sgìl trawsgwricwlaidd FfCD ar draws yr ysgol, gan sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd o'u mannau cychwyn.
- Gweithio tuag at ddatblygu'r MDPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg a sgìl trawsgwricwlaidd FfCD ar draws yr ysgol fel meysydd sy'n arwain y sector yn

y cwricwlwm, gan gynnwys addysgu a dysgu rhagorol o fewn eu gwersi eu hunain.
- Gweithio gyda chydweithwyr, i gynorthwyo â hyfforddi a chefnogi staff ar bob lefel am yr MDPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg a sgìl trawsgwricwlaidd FfCD ar draws yr ysgol.
- Rheoli hunanwerthuso a chynllunio gwella'r ysgol yn yr MDPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg a'r sgìl trawsgwricwlaidd FfCD ar draws yr ysgol.
- Datblygu systemau cymedroli, asesu, cofnodi ac adrodd yn yr MDPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg a'r sgìl trawsgwricwlaidd FfCD ar draws yr ysgol gan gynnwys pennu targedau, yn unol â systemau'r ysgol er mwyn bodloni gofynion statudol.
- Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus a chymorth i'r holl staff i gyrraedd safonau uchel drwy reoli perfformiad a dysgu proffesiynol parhaus effeithiol.
- Gosod disgwyliadau uchel ar gyfer ymddygiad disgyblion a chynnal safon dda o ddisgyblaeth drwy addysgu ag iddo ganolbwynt da, meithrin perthnasoedd cadarnhaol, a gweithredu polisi ymddygiad yr ysgol yn yr MDPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg a'r sgìl trawsgwricwlaidd FfCD ar draws yr ysgol.
- Darparu trefniadaeth ac arweinyddiaeth effeithiol yn yr ysgol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu trefnu a'u rheoli i ddarparu amgylchedd dysgu effeithlon a diogel o fewn yr MDPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg a'r sgìl trawsgwricwlaidd FfCD ar draws yr ysgol.
- Ymgymryd ag unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol a allai fod yn ofynnol o bryd i'w gilydd.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol**
Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodi troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

## Manyleb y Person

## Athro/Athrawes a Rheolwr Gwyddoniaeth a Thechnoleg gan gynnwys sgìl trawsgwricwlaidd y Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy)

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Gradd briodol gyda Statws Athro Cymwysedig.<br>• Cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.<br>• Tystiolaeth o ddysgu proffesiynol perthnasol pellach sy'n ymwneud â rheoli addysg, arweinyddiaeth, ADY (Diploma Uwch, Gradd Meistr ac ati.).<br>• Tystiolaeth o ddysgu personol a phroffesiynol parhaus. | Ydy<br>Ydy<br><br>Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Ymrwymiad cryf i hunanwerthuso er mwyn llywio cynllunio effeithiol a gwella'r ysgol.<br>• Gallu cychwyn, arwain a rheoli newid.<br>• Gallu blaenoriaethu tasgau a chyfrifoldebau gwaith.<br>• Profiad diweddar o addysgu disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).<br>• Llwyddiant amlwg o addysgu a rheoli mentrau'r | Ydy<br><br><br>Ydy | |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | cwricwlwm ar gyfer disgyblion ag ADY. | Ydy | |
| | • Gwybodaeth ymarferol dda am bolisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol. | | |
| | • Gwybodaeth/profiad rhagorol o'r Cwricwlwm i Gymru ac ADY. | Ydy | |
| | • Gwybodaeth a phrofiad o gynorthwyo staff i ddatblygu eu hymarfer addysgu. | Ydy | |
| | • Profiad o reoli ymddygiad disgyblion heriol. | | |
| | • Profiad o weithio mewn partneriaeth effeithiol | | |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu arwain, ysgogi ac ysbrydoli tîm o staff. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |
| | • Gweithredu fel model rôl rhagorol gyda sgiliau cyfathrebu rhagorol. | Ydy | |
| | • Gallu dehongli dogfennau a gwybodaeth allweddol. | Ydy | |
| | • Sgiliau cyfathrebu da. | Ydy | |
| | • Gallu blaenoriaethu, cynllunio a threfnu'n effeithiol. | Ydy | |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | • Empathi, gostyngeiddrwydd, a hiwmor.<br><br>• Gallu meithrin perthnasoedd da.<br><br>• Ymrwymiad i hyrwyddo'r cysyniad o gyfle cyfartal i bawb. | Ydy | |